Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Cyfarfod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: 3 Medi 2024

Crynodeb o funudau'r cyfarfod a chynhaliwyd ar 3 Medi 2024.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 6 Medi 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 6 Medi 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-3-medi-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Yn bresennol

Cyflwyniad

Adroddiad blynyddol drafft ar gyfer 2025 i 2026

Adroddiad etifeddiaeth

Busnes y panel

Unrhyw fater arall

Y cyfarfod nesaf



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-3-medi-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Yn bresennol

- Frances Duffy, Cadeirydd
- Saz Willey, Is-gadeirydd
- Bev Smith, Aelod
- Dianne Bevan, Aelod
- Kate Watkins, Aelod
- Sara Rees, Ysgrifenyddiaeth
- Leighton Jones, Ysgrifenyddiaeth
- Elaina Chamberlain, Ysgrifenyddiaeth

## Rhanddeiliaid allanol oedd yn bresennol yn y cyfarfod

- Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
- Shereen Williams (sylwedydd)
- Roger Ashton Winter
- Cher Cooke

# Cyflwyniad

Cynhaliwyd cyfarfod o Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) ddydd Mawrth 4 Medi.

Nod y diwrnod strategaeth oedd:

- cytuno ar yr Adroddiad Blynyddol Drafft ar gyfer 2025 i 2026
- trafod a chytuno ar amlinelliad ar gyfer Adroddiad Etifeddiaeth y Panel
- ystyried a chytuno ar ymateb i ymgynghoriad ar rannu swyddi

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-3-medi-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Ystyriodd y panel hefyd:

- bapur ymchwil a thystiolaeth yn ategu'r adroddiad blynyddol drafft
- awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cyflogau uwch
- tystiolaeth gan grwpiau cydraddoldeb ac adborth o sesiynau ymgysylltu ar effaith penderfyniadau
- diweddariad gan Brif Weithredwr Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (DBCC) ar waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Iechyd Democrataidd (DHFTG)
- effaith Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ar weithrediadau a meysydd cyflawni'r Panel.
- y Gofrestr Risgiau

Isod, ceir crynodeb o drafodaethau a phenderfyniadau'r Panel.

## Adroddiad blynyddol drafft ar gyfer 2025 i 2026

Ystyriodd y Panel bapur ymchwil a thystiolaeth a gyflwynwyd gan Saz Willey. Byddai'r papur hwn yn llywio penderfyniad y Panel ar uwchraddio lwfansau blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025 i 2026. Caiff y papur hwn ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad blynyddol terfynol ym mis Chwefror 2025.

Cyflwynwyd papur i'r Panel hefyd ar gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub (FRAs) ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (NPAs). Rhoddodd y papur hwn wybodaeth a thystiolaeth a gasglwyd ar gydnabyddiaeth ariannol cadeiryddion a dirprwy gadeiryddion FRAs a NPAs. Bydd ymchwil yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad etifeddiaeth i alluogi'r DBCC i fwrw ymlaen.

Cafodd y Panel adborth o sesiynau ymgysylltu a gynhaliwyd rhwng aelodau'r Panel a rhanddeiliaid. Bydd y Panel yn cyfarfod â'r awdurdodau drwy gydol y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-3-medi-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

cyfnod ymgynghori ar ei adroddiad blynyddol drafft.

## Adroddiad etifeddiaeth

Rhoddwyd diweddariad i'r Panel gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Iechyd Democrataidd ac fe ystyriodd y Panel feysydd ar gyfer yr adroddiad a oedd yn cynnwys cwmpasu gwaith pellach ar gyflogau uwch a gwaith y panel i roi Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith.

Trafododd y Panel hefyd yr amlinelliad o'r hyn sydd i'w gynnwys yn yr adroddiad etifeddiaeth a'r bwriad i'w gyhoeddi.

## Busnes y panel

Ochr yn ochr â thrafodaethau a phenderfyniadau'r adroddiadau blynyddol ac etifeddiaeth drafft, cytunodd y Panel hefyd i ymateb ar ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn ymwneud ag ymestyn darpariaethau rhannu swydd ar gyfer aelodau etholedig o brif gynghorau i rolau nad ydynt yn rhan o'r weithrediaeth.

Yn ogystal, cytunodd y Panel i fabwysiadu cofnodion cyfarfod mis Gorffennaf.

## Unrhyw fater arall

Gwnaeth y Panel ystyried a chytuno ar ymateb i ymholiad a ddaeth i law oddi wrth brif gyngor.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-3-medi-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Y cyfarfod nesaf

Bydd cyfarfod nesaf Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn cael ei gynnal ar 22 Hydref 2024.

Os bydd gennych unrhyw faterion yr hoffech eu codi gyda'r Panel, mae croeso ichi gysylltu drwy'r Ysgrifenyddiaeth, cyfeiriad e-bost: **IRPMailbox@llyw.cymru**.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-3-medi-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.